| Cyfenw | | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|---|
| Enwau Eraill | | | 0 |

**TGAU**

4283/51

# HANES

## UNED 1/UNED 2: Datblygiadau ym myd chwaraeon, hamdden a thwristiaeth yng Nghymru a Lloegr, tua 1900 hyd heddiw

P.M. DYDD MAWRTH, 12 Mehefin 2012

1 awr

| Cwestiynau wedi'u hateb | Swyddfa yn unig |
|---|---|
| Cw.1 (Gorfodol) | 25 |
| Cw. | 25 |
| CYFANSWM | 50 |

4283 510001

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch Gwestiwn 1 (Adran A) a **naill ai** Cwestiwn 2 **neu** Gwestiwn 3 (Adran B).

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os nad oes digon o le yn y llyfryn hwn. Ysgrifennwch eich enw ar bob tudalen ychwanegol a nodwch yn glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch eich tudalennau ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu yn yr atebion sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig, sef cwestiynau 1*(d)* a naill ai 2*(ch)* neu 3*(ch)*.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

*Atebwch Gwestiwn 1 yn Adran A a* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3 yn Adran B.*

**ADRAN A**

**(GORFODOL)**

**1. Mae'r cwestiwn hwn yn ymchwiliad i newid yn natur adloniant poblogaidd.** [25]

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell.

**Ffynhonnell A**



[Gorymdaith flynyddol Ysgolion Sul yng Ngogledd Cymru, tua 1900]

*(a)* Beth mae Ffynhonnell A yn ei ddangos i chi am weithgareddau capeli ar ddechrau'r ugeinfed ganrif? [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**Ffynhonnell B**

| |
|---|
| Cafodd y *British Broadcasting Corporation* ei sefydlu yn 1926 i redeg gwasanaeth radio newydd Prydain. Tasg y *BBC* oedd rhoi gwybodaeth a diddanu'r gwrandawyr. Roedd setiau radio yn ddrud ar y dechrau, ond roedden nhw'n fforddiadwy yn y 1930au oherwydd masgynhyrchu. Erbyn 1939 roedd bron 75% o deuluoedd Prydain yn berchen ar set radio. |

[Rhan o werslyfr hanes ar gyfer ysgolion]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i egluro pam roedd y radio yn boblogaidd yn y 1920au a'r 1930au. [4]

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

4283
510003

**Ffynhonnell C**

Roedd llai a llai o bobl yn mynd i'r sinema o ddiwedd y 1960au ymlaen. Cafodd sinemâu eu chwalu neu eu troi'n neuaddau bingo. Ond, yn y 1990au, roedd effeithiau arbennig a sain stereo o ansawdd uchel yn golygu bod pobl eisiau gwylio ffilmiau mawr fel *Jurassic Park* ac *Independence Day*, ar sgrin fwy. O ganlyniad, roedd cynnydd yn y niferoedd oedd yn mynd i'r sinema am y tro cyntaf ers yr Ail Ryfel Byd a chafodd sinemâu newydd cyffyrddus 'aml-sgrîn *(multiplex)*' eu hadeiladu.

[Rhan o erthygl mewn cylchgrawn yn sôn am hanes y sinema, a gafodd ei hysgrifennu yn 1998]

*(c)* I ba raddau mae Ffynhonnell C yn cefnogi'r safbwynt bod y sinema wedi dod yn fwy poblogaidd yn y 1990au? [5]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**Ffynhonnell CH**

Pan oeddwn i'n 17 oed, yn 1964, roedd fy ffrind a minnau wedi cael tocynnau ar gyfer y *Mad Mod Ball* yn Stadiwm Wembley. Y *Rolling Stones* oedd y grŵp oedd yn chwarae. Roedden nhw wedi'u rhoi ar lwyfan yng nghanol y stadiwm. Roedd tocynnau dawnsio gyda ni, oedd yn golygu ein bod ni'n gallu mynd yn agos iawn at y *Stones.* Rwy'n amau a fyddai'r *Stones* wedi chwarae mor agos at eu cynulleidfa ar ôl hynny. Rwy'n gallu cofio'r ofn ar eu hwynebau, wrth iddyn nhw geisio gadael y llwyfan, gyda thorf o ddilynwyr gwyllt yn sgrechian o'u cwmpas.

[Anne Hungerford, yn cofio ei phrofiadau o'i harddegau yn y 1960au.
Roedd yn rhoi cyfweliad ar gyfer llyfr hanes, *The 1960s* (1999)]

*(ch)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell CH i hanesydd sy'n astudio apêl cerddoriaeth pop yn y 1960au? [6]
*[Eglurwch eich ateb trwy ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod.]*

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

4283
510005

Arholwr yn unig

Mae'r ddwy ffynhonnell hyn yn dweud pethau gwahanol am effeithiau teledu.

**Ffynhonnell D**

Daeth swyn *(magic)* y teledu i'm cartref i yn 1951, pan oeddwn yn fy arddegau cynnar. Cafodd fy mywyd ei drawsnewid pan ddaeth y bocs swyn hwnnw. O ddyddiau hapus! O hynny ymlaen, roedd fy mywyd i gyd yn troi o gwmpas y 'bocs bach pleserus' hwnnw a'i raglenni cofiadwy. Diolch, deledu!

[Gerry George, cyflwynydd teledu ac actor yn sôn am ei atgofion o'r byd teledu ar wefan ar y Rhyngrwyd (2010)]

**Ffynhonnell DD**

Ers y 1950au, mae teledu wedi effeithio ar fywydau'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru a Lloegr mewn rhyw ffordd. Mae rhai o'r effeithiau wedi bod yn bositif tra bod rhai eraill yn negyddol. Mae rhai adroddiadau yn honni bod teledu wedi cael effaith ddrwg ar ffordd pobl o fyw, gan ei fod yn atal teuluoedd rhag siarad â'i gilydd; mae eraill yn dweud bod gormod o regi a thrais ar y teledu.

[Tom Barrance, hanesydd y cyfryngau, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr hanes ar gyfer TGAU, *Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth er 1900* (cyfieithiad Sian A. Edwards, 1998)]

*(d)* Pam mae Ffynonellau D ac DD yn rhoi safbwyntiau gwahanol am effeithiau teledu? [8]

*[Yn eich ateb dylech gyfeirio at gynnwys y ffynonellau a'r awduron hefyd.]*

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

Arholwr yn unig

4283 510007

25

Arholwr yn unig

## ADRAN B

*Atebwch* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3.*

**2. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am dwf a datblygiad chwaraeon.** [25]

Astudiwch y ffotograff isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**




[Ffotograff o seremoni agoriadol Gemau Olympaidd 1948 yn Wembley]

*(a)* Beth mae'r ffotograff hwn yn ei ddangos i chi am y Gemau Olympaidd? [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

*(b)* Disgrifiwch gampau *(achievements)* **un** o sêr y byd chwaraeon a astudioch chi. [5]

4283 510009



**Trosodd.**

Arholwr yn unig

*(c)* (i) Eglurwch pam roedd twf mewn chwaraeon ar gyfer gwylwyr *(spectator sport)* ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. [4]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

(ii) Eglurwch pam y daeth mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon o ddiwedd yr ugeinfed ganrif ymlaen. [4]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

Arholwr yn unig

*(ch)* Ai nawdd *(sponsorship)* yw'r rheswm pennaf pam mae chwaraeon wedi bod yn fwy poblogaidd er 1900? [10]
Eglurwch eich ateb yn llawn.

*Yn eich ateb dylech drafod:*
- *pwysigrwydd nawdd ar gyfer chwaraeon;*
- *pwysigrwydd ffactorau eraill sydd wedi gwneud chwaraeon yn fwy poblogaidd.*

Arholwr yn unig

25

Arholwr yn unig

**3. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am newidiadau ym mhatrymau gwyliau.** [25]

Astudiwch y darlun isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.



[Cerdyn post yn dangos ymarferion yn gynnar yn y bore yng ngwersyll Butlin's, Bognor Regis, yn 1938]

*(a)* Beth mae'r darlun hwn yn ei ddangos i chi am wersyll gwyliau Butlin's? [2]

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

Arholwr yn unig

*(b)* Disgrifiwch y gwyliau roedd pobl gyfoethog yn eu cael ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. [5]

Arholwr yn unig

*(c)* (i) Eglurwch pam roedd mwy o bobl yn cael gwyliau ym Mhrydain rhwng 1945 ac 1965. [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(ii) Eglurwch pam roedd y cynnydd mewn perchenogaeth ceir o'r 1960au ymlaen yn bwysig ar gyfer twristiaeth ym Mhrydain. [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

*(ch)* Ai sefydlu parciau thema *(theme parks)* oedd y datblygiad pwysicaf ar gyfer patrymau gwyliau yng Nghymru a Lloegr er 1900? [10]
Eglurwch eich ateb yn llawn.

> *Yn eich ateb dylech drafod:*
> - *pwysigrwydd parciau thema fel datblygiad gwyliau;*
> - *pwysigrwydd datblygiadau eraill ar gyfer patrymau gwyliau.*

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

Arholwr yn unig

25